# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Gorffennaf 2020

Amser: 12.32 - 16.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/6344) yn:

http://senedd.tv/cy/6344

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Jayne Bryant AS (yn lle Hefin David AS)<br>Suzy Davies AS<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Tystion: | Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg<br>Steve Davies, Cyfarwyddwr y Cyfarwyddiaeth Addysg<br>Huw Morris, Cyfarwyddwr Grŵp, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes<br>Angel Ezeadum, Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru<br>Ali Abdi, Prif Gydgysylltydd y Fforwm Ieuenctid BAME Cenedlaethol |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Nododd y Cadeirydd ymddiheuriadau gan Hefin David AS. Dirprwyodd Jayne Bryant AS ar ei ran.

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

2.1 Holodd yr Aelodau'r Gweinidog Addysg am COVID-19 a'i effaith ar blant a phobl ifanc.

2.2 Cytunodd y Gweinidog a'i swyddogion i rannu'r canlynol â'r Pwyllgor:

- adolygiad o ddysgu cyfunol a gynhaliwyd gan y consortia addysg rhanbarthol a manylion y camau a gymerwyd o ganlyniad iddo; a
- phapur a gyhoeddwyd ar y cyd ag Estyn a'r consortia addysg rhanbarthol yn rhoi mwy o fanylion am gyngor i ysgolion ynghylch dysgu cyfunol.

2.3 Cytunwyd y byddai cwestiynau nas gofynnwyd yn cael eu hanfon at y Gweinidog am ymateb ysgrifenedig.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 4 a 5

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Covid-19 – ystyried y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.

## 5 Briff technegol Llywodraeth Cymru ynghylch deddfwriaeth sydd ar ddod

5.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

## 6 Trafod deddfwriaeth sydd ar ddod

6.1 Trafododd y Pwyllgor y ddeddfwriaeth sydd ar ddod.

## 7 COVID-19: sesiwn dystiolaeth ar effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc gyda chynrychiolwyr Race Council Cymru

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr Race Council Cymru ar effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc o'r gymuned BAME.

## 8 Papurau i’w nodi

8.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

9.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 10 Covid-19 – ystyried y dystiolaeth

10.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn y sesiwn gyda chynrychiolwyr Race Council Cymru.

## 11 Gohebiaeth y Pwyllgor - i'w thrafod a'i chytuno

11.1 Trafododd y Pwyllgor lythyr drafft at y Gweinidog Addysg ynghylch addysg ddewisol gartref a chytunwyd arno.